# *THE MACHINE* (James, 2013)
## Dosbarthu 2

## Hyrwyddo a phecynnau i'r wasg

**Yn y gorffennol, prif rôl dosbarthwr oedd *dosbarthu* copïau o'r ffilm i sinemâu (ar ffurf ddigidol ers 2013) yn ogystal â denu cynulleidfaoedd i'r sinema i wylio'r ffilm (hynny yw, mae dosbarthwr yn gyfrifol am farchnata a hyrwyddo ffilm). Gallwch chi wylio ffilmiau ar draws sawl llwyfan bellach – er enghraifft sinemâu, DVDs, lawrlwythiadau, ffrydio Fideo ar Alw (gan gynnwys arddangoswyr ar-lein newydd fel Netflix) a darlledwyr teledu. Nod dosbarthwyr yw gwerthu ffilm yn effeithiol ar draws cynifer o lwyfannau â phosibl (fel yn achos *The Machine*). Mae marchnata a hyrwyddo, felly, yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant masnachol cyffredinol ffilm. Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng marchnata a hyrwyddo yw bod marchnata'n costio arian ond gellir hyrwyddo am ddim!**

**Ffordd draddodiadol o hyrwyddo ffilm yw creu pecyn ar gyfer y wasg, bellach y Pecyn Electronig i'r Wasg (*EPK: Electronic Press Pack*). Edrychwch ar yr EPK ar gyfer *The Machine*.**

**Adnoddau**

– **Pecyn y Wasg**

**Mae'r pecyn yn cynnwys:**
- **Cast**
- **Gwneuthurwyr ffilm**
- **Crynodeb byr**
- **Crynodeb hir**
- **Taith i'r sgrin**
- **Gweledigaeth y cyfarwyddwr**
- **Castio**
- **Effeithiau arbennig (rôl *VFX* ac *SFX* yn y ffilm)**
- **Y Gair Olaf (dyfyniadau gan Toby Stephens a *Frankenstein*, y nofel gan Mary Shelley)**
- **Bywgraffiadau'r cast a'r gwneuthurwyr ffilm.**

**Sut rydych chi'n meddwl y byddai'r canlynol yn defnyddio'r pecyn hwn:**
- **cylchgrawn *Heat***
- ***Empire***
- **adran ffilmiau *The Sunday Times***
- ***Film 2014* y BBC**
- **rhaglen adolygu ffilmiau ar-lein wedi'i thargedu at bobl ifanc?**